Senedd Cymru
Ymchwil y Senedd

Bil Trethiant (Cymru)

Crynodeb o'r Bil

Tachwedd 2026



Cael gwybod mwy:
ymchwil.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
Ymchwil y Senedd

Bil Trethiant (Cymru)

Crynodeb o'r Bil

Tachwedd 2026

Awdur:
Christian Tipples

Mae'r **Bil Trethiant (Cymru)**, sy'n cael ei ystyried gan y Senedd ar hyn o bryd, yn gwneud diwygiadau technegol a gweinyddol i 'Ddeddfau Trethi Cymru', y bwriedir iddynt eu galluogi i weithio mewn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon.

Yn sgil **Deddf Cymru 2014**, cafodd Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi eu datganoli i'r Senedd. Ym mis Ebrill 2018, cafodd y trethi hyn eu disodli yng Nghymru gan y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn y drefn honno.

Gyda'i gilydd, gelwir y tair Deddf hyn yn 'Ddeddfau Trethi Cymru'.

Cafodd y trethi datganoledig eu sefydlu gan **Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017** (DTTT 2017) a chan **Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017** (DTGT 2017).

Cyn sefydlu'r trethi hynny, pasiodd y Senedd **Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016** (DCRhT 2016) i ddarparu fframwaith ar gyfer gweinyddu trethi datganoledig yng Nghymru. Sefydlodd Rhan 2 o DCRhT 2016 Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) i gasglu a rheoli trethi datganoledig.

Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi darpariaethau'r Bil Trethiant (Cymru) ac yn rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndir ychwanegol.



Cynnwys

1. Cyflwyniad 7

2. Cipolwg ar y Bil 9

3. Crynodeb o'r darpariaethau 10

Rhan 1 - Casglu a rheoli trethi 10

Adran 1. Cyfranogiad ym mhwyllgorau Awdurdod Cyllid Cymru gan bersonau nad ydynt yn aelodau o'r awdurdod 10

Adran 2. Dirprwyo swyddogaethau Awdurdod Cyllid Cymru 11

Adran 3. Datgelu gwybodaeth warchodedig 11

Adran 4. Pŵer i gadw ad-daliadau treth yn ôl yn ystod ymholiad Awdurdod Cyllid Cymru 12

Adran 5. Hawliadau am ryddhad rhag treth a ordalwyd: ad-dalu llog taliadau hwyr 12

Adran 6. Rhoi rhesymau dros beidio â rhoi effaith i hawliadau am ryddhad yn achos asesiad gormodol neu dreth a ordalwyd 13

Adran 7. Hysbysiadau trethdalwr ar ôl dychwelyd ffurflen dreth 13

Adran 8. Archwilio mangre 14

Adran 9. Llog taliadau hwyr ar drethi a gesglir gan Awdurdod Cyllid Cymru 15

Adran 10. Cymhwyso DCRhT i'r Goron at ddibenion treth trafodiadau tir 15

Rhan 2 – Treth Trafodiadau Tir 16

Adran 11. Eithriad ar gyfer trafodiadau hawliau ar y cyd rhag cyfraddau uwch o dreth trafodiadau tir 16

Adran 12. Cyfraddau uwch o dreth trafodiadau tir: personau nad ydynt yn cyfrif fel prynwyr 17

Adran 13. Trafodiadau sy'n ymwneud ag ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth noeth 18

Rhan 3 – Treth Gwarediadau Tirlenwi 19

Adran 14. Gweithgarwch safle tirlenwi penodedig 19

Rhan 4 – Cyffredinol 19

Adrannau 15, 16 a 17. Dehongli, Dod i rym ac Enw byr 19

4. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth 20

5. Adolygu ar ôl gweithredu 21

6. Goblygiadau ariannol y Bil 22

Arbedion cost 22

Costau cydymffurfio 23

Manteision 23

7. Craffu ar y Bil 24

Cyfnod 1 24

Cyfnod 2 a thu hwnt 24

1. Cyflwyniad

Ym mis Tachwedd 2025, cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) **ymgynghoriad** ar gynigion deddfwriaethol mewn perthynas â Deddfau Trethi Cymru. Yn ei ddatganiad ysgrifenedig, **dywedodd Mark Drakeford AS**, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ar y pryd:

> *Os bydd y Llywodraeth Cymru newydd yn dymuno mynd â'r newidiadau hyn ymhellach eto, gellid cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol ddechrau tymor y Senedd nesaf. Mae'r cynigion hyn yn nodi'r cam nesaf ar y daith datganoli cyllidol yng Nghymru ac maent yn arwydd o aeddfedrwydd cynyddol system dreth Cymru.*

Cyflwynwyd y **Bil Trethiant (Cymru)** i **broses ddeddfwriaethol** y Senedd ar 19 Hydref 2026.

Wrth gyflwyno'r Bil i'r Senedd, **dywedodd Elin Jones AS**, y Gweinidog Cabinet dros Gyllid ("y Gweinidog Cabinet"):

> *Pwrpas y Bil yw sicrhau bod ein trethi datganoledig yn parhau i weithredu mewn ffordd deg ac effeithiol. Mae'n Fil ymarferol sy'n canolbwyntio ar egluro system dreth ddatganoledig Cymru, ei chryfhau, a'i diogelu ar gyfer y dyfodol.*

Ychwanegodd y Gweinidog Cabinet:

> *Mae'r mesurau sydd ynddo yn ymateb i faterion ymarferol a thechnegol a nodwyd dros amser gan Awdurdod Cyllid Cymru, trethdalwyr, cynghorwyr proffesiynol a phartneriaid cyflawni. Mae'r Bil yn cynnwys mesurau fydd yn cefnogi Awdurdod Cyllid Cymru i gyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd fwy effeithiol.*

Bwriad y Bil yw gwneud cyfres o ddiwygiadau technegol a gweinyddol yn bennaf i Ddeddfau Trethi Cymru. Mae'r **Memorandwm Esboniadol (y Memorandwm) yn nodi** bod y Bil yn:

> *... sicrhau bod Deddfau Trethi Cymru yn parhau i gyflwyno'r canlyniadau a fwriadwyd gan Senedd Cymru, y gall trethdalwyr a chynghorwyr ddeall eu rhwymedigaethau'n*

> *gliriach, a bod ACC yn gallu gweinyddu a gorfodi'r trethi yn effeithiol ac yn deg.*

Mae'n ychwanegu:

> *Nid yw'r Bil yn cyflwyno treth newydd, nac yn gwneud newidiadau o sylwedd i amcanion polisi sylfaenol y trethi datganoledig presennol.*

Nod y newidiadau arfaethedig yw:

- unioni meysydd lle mae ACC wedi wynebu anawsterau ymarferol i weithredu'r ddeddfwriaeth;
- ymateb i adborth gan drethdalwyr a chynghorwyr proffesiynol;
- gwneud newidiadau i gyfansoddiad rhai o bwyllgorau ACC os mai'r pwrpas yw cyflwyno penderfyniadau penodol ynghylch trethdalwyr;
- ei gwneud yn bosibl i ddata gael eu rhannu'n well ag awdurdodau lleol er mwyn helpu i ddatblygu sylfeini trethu cywir, gwella gweithgarwch cydymffurfio â threthi lleol, a gwella defnydd trawslywodraethol o ddata.

2. Cipolwg ar y Bil

Mae i'r Bil 17 o adrannau o dan bedair rhan:

- Casglu a rheoli trethi
- Treth Trafodiadau Tir
- Treth Gwarediadau Tirlenwi
- Cyffredinol

Mae'r Memorandwm yn rhestru **diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**, **manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd** a'r **is-ddeddfwriaeth** y darperir ar ei chyfer yn y Bil. Mae hefyd yn cynnwys **Asesiad Effaith Rheoleiddiol** ('yr Asesiad'), sy'n nodi costau a manteision amcangyfrifedig y ddeddfwriaeth.

3. Crynodeb o'r darpariaethau

Rhan 1 - Casglu a rheoli trethi

Adran 1. Cyfranogiad ym mhwyllgorau Awdurdod Cyllid Cymru gan bersonau nad ydynt yn aelodau o'r awdurdod

Mae **adran 1** o'r Bil yn egluro'r darpariaethau sy'n ymwneud â llywodraethiant yn DCRhT 2016. Mae'n cydnabod y gwahaniaeth rhwng pwyllgorau ffurfiol ACC (sy'n cynnwys aelodau gweithredol ac anweithredol y bwrdd) a phwyllgorau a sefydlir gan staff ACC mewn perthynas â swyddogaethau y maent wedi'u hawdurdodi i'w cyflawni. Mae'r Memorandwm yn **esbonio**:

> *Grŵp sydd wedi'i awdurdodi gan Fwrdd ACC i ymdrin â busnes penodol neu i gynghori ar faterion penodol yw pwyllgor. Grŵp llai a sefydlir o dan bwyllgor yw is-bwyllgor.*

Mae'r adran hefyd yn nodi pwy a gaiff bleidleisio mewn cyfarfodydd. Yn ôl y Memorandwm: "O ran pwyllgorau ACC, ni fydd gan berson nad yw'n aelod o ACC bleidlais yn awtomatig dim ond oherwydd eu bod yn eistedd ar y pwyllgor hwnnw, ond gall staff ACC gael eu hawdurdodi i bleidleisio gan ACC". Mae hefyd yn nodi:

> *O ran pwyllgorau a sefydlir gan staff ACC, mae'r newidiadau'n cydnabod y caiff staff benderfynu ar gyfansoddiad pwyllgorau o'r fath. Maent hefyd yn egluro mai'r unig bersonau, heblaw staff ACC, a gaiff bleidleisio ar bwyllgorau o'r fath yw aelodau ACC neu bersonau y mae swyddogaethau ACC wedi'u dirprwyo iddynt, a dim ond os ydynt wedi cael eu hawdurdodi i bleidleisio gan Brif Weithredwr ACC.*

Mae adran 1 hefyd yn gwneud newidiadau cysylltiedig i reolau ynghylch gweithdrefn, cyfrinachedd a thystiolaeth fel bod y strwythur llywodraethu diwygiedig yn gweithio mewn ffordd gydlynol. Nodir yn y Memorandwm:

> *Effaith ymarferol y newidiadau yw eu bod yn egluro trefniadau llywodraethu, cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau, hawliau pleidleisio a rheolau dirprwyo er mwyn gwneud trefniadau llywodraethu ACC yn fwy tryloyw ac yn llai agored i ansicrwydd cyfreithiol.*

Mae'r newidiadau hefyd yn ceisio "sicrhau bod gweithrediadau ACC yn parhau i gael eu goruchwylio gan y Bwrdd ond maent yn ei gwneud yn glir y caiff staff ACC wneud penderfyniadau gweithredol drwy bwyllgorau staff heb fod angen i aelodau anweithredol fod yn rhan o'r gwaith o reoli achosion o ddydd i ddydd".

Adran 2. Dirprwyo swyddogaethau Awdurdod Cyllid Cymru

Mae **adran 14 o DCRhT 2016** yn galluogi ACC i ddirprwyo unrhyw rai o'i swyddogaethau i un neu fwy o gyrff sydd wedi'u rhagnodi gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau (Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r unig gorff sydd wedi'i ragnodi mewn rheoliadau ar hyn o bryd).

Mae **adran 2** o'r Bil yn **egluro**, mewn achosion pan fo swyddogaeth ACC wedi'i dirprwyo i gorff nad yw'n awdurdod a gedwir yn ôl, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, y caniateir dirprwyo'r swyddogaeth honno ymhellach o dan unrhyw bwerau sydd gan y corff a'i thrin fel swyddogaeth y corff hwnnw at ddibenion ei bŵer dirprwyo ei hun.

Mae'r adran **hefyd yn galluogi** Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wahardd neu gyfyngu ar gamau pellach i ddirprwyo swyddogaethau ACC yn yr achosion hyn.

Adran 3. Datgelu gwybodaeth warchodedig

Mae ACC eisoes yn casglu gwybodaeth warchodedig helaeth o dan DCRhT 2016. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, **nid oes llwybr a ganiateir** yn **adran 18 o DCRhT 2016** sy'n caniatáu datgelu gwybodaeth warchodedig am drethi datganoledig neu'r ardoll ymwelwyr i brif gynghorau at ddibenion trethiant lleol.

Mae **adran 3** o'r Bil yn diwygio **adran 18 o DCRhT 2016** er mwyn cyflwyno **dau borth rhannu gwybodaeth statudol**:

1. Galluogi ACC i ddatgelu gwybodaeth warchodedig am yr ardoll ymwelwyr i brif gynghorau pan fo'r datgeliad hwnnw at ddibenion swyddogaethau ardoll ymwelwyr ACC ei hun.

2. Galluogi ACC i ddatgelu gwybodaeth warchodedig i bersonau cymhwysol at ddibenion casglu a rheoli'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig.

Diben y porth cyntaf yw dileu cyfyngiad anfwriadol yn y ddeddfwriaeth bresennol. Nid bwriad **adran 12(2)(e) o DCRhT 2016**, a gyflwynwyd gan **Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025**, oedd atal ACC rhag

datgelu gwybodaeth warchodedig i brif gynghorau pan oedd angen gwneud hynny er mwyn gweinyddu'r ardoll ymwelwyr yn briodol.

Mae'r **Memorandwm yn nodi** y bydd y diwygiad hwn yn rhoi'r un driniaeth i drethdalwyr ardoll ymwelwyr ag i drethdalwyr trethi datganoledig.

Mae'r ail borth yn ymwneud â rhannu gwybodaeth warchodedig ar gyfer swyddogaethau'r Dreth Gyngor a Threthi Annomestig, a bwriedir iddo fod yn gulach na'r porth cofrestru presennol yn **adran 18(1)(k) o DCRhT 2016**. Yn hytrach na chaniatáu datgelu mewn cysylltiad ag unrhyw un o brif swyddogaethau'r cyngor, mae'r Bil yn cyfyngu datgelu i swyddogaethau trethiant lleol yn unig.

Mae'r Memorandwm yn datgan: "bydd y pyrth newydd a ddarperir gan y Bil yn rhai dewisol yn hytrach na gorfodol, a hynny er mwyn sicrhau bod ACC yn cadw rheolaeth dros ba wybodaeth sy'n cael ei rhannu".

Adran 4. Pŵer i gadw ad-daliadau treth yn ôl yn ystod ymholiad Awdurdod Cyllid Cymru

Ar hyn o bryd, o dan **Ran 3 o DCRhT 2016**, pan fydd trethdalwr yn **diwygio ffurflen dreth** a bod y diwygiad hwnnw yn arwain at ad-daliad, mae'n ofynnol i ACC wneud yr ad-daliad heb oedi, hyd yn oed pan fydd ganddo bryderon nad yw'r diwygiad yn gywir. O ganlyniad, cynhelir ymholiadau yn aml ar ôl i'r ad-daliad gael ei wneud, sy'n gwneud adennill y dreth yn anodd.

I fynd i'r afael â hyn, mae **adran 4** o'r Bil yn **creu pŵer statudol** sy'n caniatáu i ACC gadw yn ôl ad-daliadau sy'n deillio o ddiwygiadau gan drethdalwr pan fydd ymholiad wedi cael ei agor a nes bod yr ymholiad hwnnw wedi'i gwblhau. Y bwriad yw cryfhau'r camau sydd ar gael i ddiogelu cyllid.

Adran 5. Hawliadau am ryddhad rhag treth a ordalwyd: ad-dalu llog taliadau hwyr

Mae **adran 63 o DCRhT 2016** yn darparu ffordd i drethdalwyr hawlio rhyddhad mewn cysylltiad â threth a ordalwyd. Fodd bynnag, nid yw'n darparu'n benodol ar gyfer addasu unrhyw log taliadau hwyr cysylltiedig.

Mae **adran 5** o'r Bil yn diwygio **adran 73 o DCRhT 2016** i ddarparu ar gyfer ymdrin â'r sefyllfa llog taliadau hwyr cysylltiedig pan fydd trethdalwr yn hawlio rhyddhad mewn cysylltiad â threth a ordalwyd. Mae'r **Memorandwm yn nodi**:

> *Yr effaith fwriadedig yw sicrhau y gellir addasu atebolrwydd cyffredinol trethdalwr yn gyson yn dilyn hawliad llwyddiannus am dreth a ordalwyd, heb fod angen hawliad ar wahân mewn perthynas â'r llog cysylltiedig.*

Adran 6. Rhoi rhesymau dros beidio â rhoi effaith i hawliadau am ryddhad yn achos asesiad gormodol neu dreth a ordalwyd

Mae **adran 6** o'r Bil hefyd yn diwygio **adran 73 o DCRhT 2016** i osod gofynion ychwanegol ar ACC pan fydd yn penderfynu peidio â rhoi effaith i hawliad neu ddiwygiad sy'n ymwneud ag asesiad gormodol neu dreth a ordalwyd.

Pan fo ACC yn gwrthod hawliad neu ddiwygiad, naill ai'n llawn neu'n rhannol, rhaid iddo bellach roi rhesymau dros ei benderfyniad i'r trethdalwr. Rhaid iddo hefyd gynnwys gwybodaeth am hawliau'r trethdalwr i ofyn am adolygiad mewnol neu i apelio yn erbyn y penderfyniad.

Yn ôl y **Memorandwm**:

> *Bwriad y diwygiad yw gwella tryloywder a sicrhau bod trethdalwyr yn deall pam nad yw eu hawliad wedi'i dderbyn a pha opsiynau sydd ar gael i herio'r penderfyniad.*

Nid yw'r gofynion newydd yn gymwys pan fo ACC yn penderfynu ymchwilio i hawliad neu ddiwygiad gan fod adrannau 74 a 75 o DCRhT 2016 yn ymdrin eisoes â'r darpariaethau hyn.

Adran 7. Hysbysiadau trethdalwr ar ôl dychwelyd ffurflen dreth

Hysbysiad ffurfiol yw hysbysiad trethdalwr sy'n ei gwneud yn ofynnol i drethdalwr ddarparu gwybodaeth neu ddogfennau sydd eu hangen yn rhesymol ar ACC ar gyfer ei swyddogaethau treth. Gall rhai rhyddhadau treth gael eu tynnu'n ôl os bydd digwyddiadau yn codi ar ôl i ffurflen dreth gael ei chyflwyno. Er enghraifft, gall rhyddhad ddibynnu ar barhau i ddefnyddio tir mewn ffordd benodol am gyfnod penodol. Yn yr achosion hynny, efallai y bydd angen gwybodaeth ychwanegol ar ACC ar ôl i'r cyfnod cychwynnol ar gyfer ymholiadau gau.

Mae **adran 7** o'r Bil yn diwygio pwerau ACC sy'n ymwneud â dyroddi hysbysiadau trethdalwr yn dilyn ffurflen dreth yn DCRhT 2016. Mae'n rhoi'r gallu i ACC i roi hysbysiad gwybodaeth pan fo angen iddo gadarnhau, yn dilyn digwyddiadau ôl-drafodiad (neu ddigwyddiadau ôl-drafodiad posibl), a yw

rhyddhad rhag y Dreth Trafodiadau Tir wedi'i dynnu'n ôl, neu a yw ad-daliad wedi dod yn ad-daladwy, gan arwain at rwymedigaeth bellach ar y ffurflen dreth.

Yn ôl y **Memorandwm**:

> *Mae hyn yn mynd i'r afael â bwlch yn y fframwaith presennol, gan y gellir hawlio rhai rhyddhadau yn ddilys ar ddyddiad gweithredol y trafodiad ond eu tynnu'n ôl yn ddiweddarach os na fydd amodau'n cael eu bodloni mwyach o fewn y 'cyfnod rheoli' a ddarperir gan y ddeddfwriaeth.*

Adran 8. Archwilio mangre

Mae pwerau archwilio yn galluogi ACC i fynd i mewn i fangre busnes ac asedau busnes a'u harchwilio, ac i archwilio dogfennau, at ddibenion treth. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, caiff ACC **gynnal archwiliad** pan fo'r meddiannydd yn cytuno i'r archwiliad neu pan fo'r tribiwnlys wedi'i gymeradwyo. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu, os na ellir dod i gytundeb, fod rhaid i ACC geisio cymeradwyaeth y tribiwnlys cyn archwilio'r fangre.

Nodir yn y Memorandwm:

> *Er bod y trefniadau hyn yn briodol mewn llawer o achosion, gallant greu anawsterau gweithredol pan fydd angen archwilio mangre yn gyflym, yn enwedig mewn perthynas â gwarediadau tirlenwi anawdurdodedig a amheuir. Mewn achosion o'r fath, gall oedi leihau gallu ACC i gadarnhau'r ffeithiau perthnasol neu sicrhau tystiolaeth cyn iddi gael ei newid, ei symud neu ei dinistrio.*

O dan **adran 8** o'r Bil, caiff ACC gynnal archwiliad heb gymeradwyaeth tribiwnlys na chymeradwyaeth meddiannydd ar ôl rhoi o leiaf saith niwrnod o rybudd o'r archwiliad. Mae'r adran hefyd yn darparu ar gyfer cynnal archwiliadau heb rybudd ymlaen llaw pan fyddai rhoi rhybudd yn cael "effaith niweidiol ddifrifol" ar y broses y bydd ACC yn ei dilyn i asesu neu gasglu treth. Mae'r Memorandwm yn **ychwanegu**:

> *Bwriad hyn yn bennaf yw mynd i'r afael â sefyllfaoedd sy'n ymwneud â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi pan fo risg y gallai tystiolaeth sy'n berthnasol i rwymedigaethau treth posibl gael ei dileu, ei newid neu fel arall ei cholli pe bai rhybudd ymlaen*

> *llaw yn cael ei roi. Mewn achosion o'r fath, caiff ACC roi hysbysiad archwilio pan fydd swyddogion ACC yn cyrraedd y fangre ac yn bwrw ymlaen â'r archwiliad ar unwaith.*

Mae'r adran **hefyd yn darparu** bod "mangreoedd busnes" at ddibenion archwiliadau o dan adran 103 o'r DCRhT yn fangreoedd yng Nghymru neu Loegr. Mae hefyd yn darparu, o dan y pŵer yn adran 103B o'r DCRhT mewn perthynas â gwarediadau heb awdurdod, y caiff ACC gynnal archwiliad mewn mangreoedd yng Nghymru neu Loegr lle gellir codi tâl ar feddiannydd y fangre fusnes am warediad heb awdurdod yng Nghymru.

Adran 9. Llog taliadau hwyr ar drethi a gesglir gan Awdurdod Cyllid Cymru

Mae **adran 9** o'r Bil yn diwygio adran 157 o DCRhT 2016 er mwyn sicrhau bod llog taliadau hwyr bob amser yn cael ei gyfrifo drwy gyfeirio at swm y dreth a oedd yn ddyledus mewn gwirionedd ar gyfer pob diwrnod o'r cyfnod llog.

Mae'r **Memorandwm yn nodi**: "Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn darparu'n benodol ar gyfer ailgyfrifo llog pan gaiff rhwymedigaeth ei lleihau'n ddiweddarach, gan greu ansicrwydd ynghylch a oes rhaid addasu llog taliadau hwyr i adlewyrchu'r rhwymedigaeth wedi'i chywiro".

Mae'n **esbonio** mai'r "amcan polisi yw sicrhau bod unrhyw ostyngiadau mewn rhwymedigaethau treth yn arwain yn awtomatig at ostyngiadau cyfatebol mewn llog taliadau hwyr". Mae'r Memorandwm yn **ychwanegu**:

> *Yr effaith yw y dylai'r llog a godir adlewyrchu swm y dreth a'r cosbau cysylltiedig sy'n ddyledus mewn gwirionedd, gan gynnwys pan fydd trethdalwr yn diwygio ffurflen dreth i leihau swm y dreth sy'n daladwy.*

Adran 10. Cymhwyso DCRhT i'r Goron at ddibenion treth trafodiadau tir

Mae **adran 10** o'r Bil yn diwygio adran 187A(1) o DCRhT 2016 i gywiro gwallau teipio a chroesgyfeirio ac i sicrhau, mewn perthynas â'r Dreth Trafodiadau Tir, fod y fframwaith adolygu ac apelio o dan Ran 8 o DCRhT 2016 yn gymwys i'r Goron yn yr un modd ag y mae'n gymwys i drethdalwyr eraill.

Ar hyn o bryd, mae adran 187A(1) yn eithrio'r Goron rhag rhai hawliau apelio sy'n ymwneud â hysbysiadau gwybodaeth. Mae'r gwallau hyn yn creu ansicrwydd

cyfreithiol ac yn arwain at sefyllfa lle nad oes gan y Goron rai hawliau adolygu ac apelio sy'n ymwneud â hysbysiadau gwybodaeth a ddylai fod ar gael iddi.

Mae'r Memorandwm yn **esbonio bod yr adran hon**:

> *... yn cywiro'r cyfeiriadau statudol ac yn dileu'r eithriadau anfwriadol fel y caiff y Goron ofyn am adolygiad neu apelio yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud â hysbysiadau gwybodaeth yn yr un modd â threthdalwyr eraill. Yr unig eithriadau y bwriedir iddynt aros yw'r rhai sy'n gysylltiedig â chosbau, nad ydynt yn rhwymo'r Goron.*

Rhan 2 – Treth Trafodiadau Tir

Adran 11. Eithriad ar gyfer trafodiadau hawliau ar y cyd rhag cyfraddau uwch o dreth trafodiadau tir

Rhyddfreinio ar y cyd yw'r hawl statudol sydd gan grŵp o denantiaid fflatiau cymhwysol i brynu rhydd-ddaliad eu hadeilad (ac unrhyw fuddiannau lesddaliadol canolradd). Mae gan denantiaid hawl gwrthodiad cyntaf ar wahân, sy'n cael ei hysgogi gan benderfyniad landlord i wneud gwarediad perthnasol a chyflwyno hysbysiad i'r tenantiaid cymhwysol. Gyda'i gilydd, cyfeirir at yr hawliau hyn fel 'hawliau ar y cyd'.

Mae hawliau ar y cyd yn ddarostyngedig i ddull penodedig o gyfrifo'r Dreth Trafodiadau Tir o dan y rheolau ym **mharagraff 10 o Atodlen 14 i DTTT 2017.** Mae hyn yn rhoi brasamcan o swm y dreth a fyddai'n codi pe bai pob lesddeiliad sy'n cymryd rhan yn gallu caffael ei gyfran o'r rhydd-ddaliad ar wahân.

Fodd bynnag, o dan y ddeddfwriaeth bresennol, **gall fod yn ofynnol o hyd** i'r cyfrifiad ystyried y darpariaethau ar gyfer cyfraddau preswyl uwch o ganlyniad i gynnwys rheol yn erbyn osgoi trethi. O ganlyniad, gellir trin rhai trafodiadau fel trafodiadau cyfraddau uwch, yn enwedig pan fydd mwy nag un lesddeiliad yn cymryd rhan yn y caffaeliad. Gall materion tebyg godi hefyd pan ddefnyddir cwmni prynwr enwebedig i gaffael y rhydd-ddaliad ar ran y lesddeiliaid sy'n cymryd rhan.

Mae **adran 11** o'r Bil yn **cyflwyno eithriadau penodol** ar gyfer personau sy'n arfer hawliau ar y cyd o fewn y darpariaethau ynglŷn â chyfraddau uwch yn Atodlen 5 fel nad yw trafodiadau sy'n cael rhyddhad o dan baragraff 10 o Atodlen 14 i'r DTTT yn cael eu trin fel trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch.

Nodir yn y Memorandwm:

> *Effaith fwriadedig y diwygiad yw helpu lesddeiliaid i arfer hawliau ar y cyd, rhoi mwy o sicrwydd ynghylch y driniaeth Treth Trafodiadau Tir ar gyfer y trafodiadau hyn a sicrhau bod y rhyddhad hawliau ar y cyd yn gweithredu'n effeithiol. Nid yw'r diwygiad yn newid y ffordd y mae'r gyfundrefn cyfraddau preswyl uwch yn gweithredu ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl eraill.*

Adran 12. Cyfraddau uwch o dreth trafodiadau tir: personau nad ydynt yn cyfrif fel prynwyr

Mae **adran 12** o'r Bil yn diwygio **Atodlen 5 i DTTT 2017** er mwyn egluro sut mae trafodiadau 'A i A+B' yn cael eu trin at ddibenion cyfraddau uwch.

Ar hyn o bryd, pan fo eiddo a ferchnogir gan un person (A) yn cael ei drosglwyddo i berchnogaeth ar y cyd A ac unigolyn arall (B), mae modd trin A a B ill dau fel prynwyr, a gall hynny olygu bod y trafodiad yn denu'r cyfraddau preswyl uwch hyd yn oed pan na fyddai B, yn ei rinwedd ei hun, yn bodloni'r amodau a nodir yn Atodlen 5 i DTTT 2017.

Mae'r **Memorandwm yn datgan** bod "hyn yn creu ansicrwydd a risg o driniaeth anghyson," yn enwedig mewn trafodiadau cyffredin fel ychwanegu partner at y teitl, sy'n digwydd yn aml pan gaiff eiddo ei ailforgeisio pan fydd partner wedi symud i mewn i'r eiddo rhwng dyddiad y morgais gwreiddiol ac ailforgeisio.

Mae'n **ychwanegu**:

> *Felly mae'r Bil yn gwneud Atodlen 5 yn fwy eglur, gan sicrhau, pan fo B yn unigolyn, mai dim ond statws a buddiannau eiddo B sy'n cael eu hystyried at ddibenion cyfraddau uwch. Ni chynigir unrhyw newid cyfatebol pan na fo B yn unigolyn. Bwriedir i'r diwygiad weithredu mewn perthynas â thrafodiadau sydd o fewn rheolau Atodlen 5 yn unig yn hytrach na newid y diffiniad ehangach o "prynwr" mewn rhannau eraill o'r Ddeddf Treth Trafodiadau Tir.*

Adran 13. Trafodiadau sy'n ymwneud ag ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth noeth

Mae **adran 13** o'r Bil yn mynd i'r afael ag effaith y rheol dybio bresennol yn DTTT 2017 ar gyfer lesoedd a roddir i, neu gan, enwebeion ac ymddiriedolwyr noeth. Mae asedau mewn ymddiriedolaeth noeth **yn cael eu dal** yn enw ymddiriedolwr. Fodd bynnag, mae gan y buddiolwr yr hawl i holl gyfalaf ac incwm yr ymddiriedolaeth ar unrhyw adeg os yw'n 18 oed neu'n hŷn yng Nghymru a Lloegr.

O dan y ddeddfwriaeth bresennol, **'edrychir drwy'** enwebeion ac ymddiriedolwyr noeth at ddibenion y Dreth Trafodiadau Tir fel arfer, gyda pherchennog llesiannol buddiant yr eiddo yn cael ei drin fel perchennog neu'r prynwr neu'r gwerthwr. Mae'r **Memorandwm yn nodi:**

> *Mae hyn yn golygu, pan fydd person (T) yn caffael buddiant trethadwy neu fuddiant mewn partneriaeth fel ymddiriedolwr noeth, fod y Ddeddf yn gymwys fel petai'r buddiant wedi'i freinio yn y person neu'r personau y mae T yn ymddiriedolwr drosto neu drostynt, a bod gweithredoedd T mewn perthynas ag ef yn weithredoedd y person neu'r personau hynny.*

Fodd bynnag, ar gyfer grantiau a lesoedd, mae'r gwrthwyneb yn wir, a phan gaiff les ei rhoi i enwebai neu ymddiriedolwr noeth, caiff yr enwebai neu'r ymddiriedolwr noeth ei drin fel prynwr y les. Mae hyn gan fod cyfleoedd i osgoi'r Dreth Trafodiadau Tir ar rent les pan roddir les i, neu gan, enwebai cyn ei throsglwyddo i berson arall. Mae'r Memorandwm yn **esbonio**:

> *Gall yr eithriad hwn i'r driniaeth 'edrych drwy' gyffredinol arwain at ganlyniadau annymunol pan fydd pwy yw'r prynwr neu'r gwerthwr yn pennu a oes rhyddhad ar gael neu sut mae treth yn cael ei chyfrifo, yn enwedig mewn trefniadau gwerthu ac adlesu, ildio ac ail-roi lesddaliadau.*

Bwriad y diwygiad yw cyfyngu ar y ffordd y mae'r 'rheol dybio' yn gweithredu fel bod y risg osgoi wreiddiol yn parhau i gael ei datrys tra bod rhannau eraill o'r gyfundrefn Treth Trafodiadau Tir sy'n ymwneud â rhyddhadau penodol, mewn perthynas â pherchnogaeth lesiannol, yn parhau i weithio fel y dylent. Mae'r Memorandwm yn **datgan**:

> *Yr effaith fwriadedig yw gwella sicrwydd cyfreithiol a sicrhau nad yw rhyddhad mewn trafodiadau gwirioneddol fasnachol*

> *yn cael ei wrthod, neu na chodir mwy o dreth arnynt, am mai enwebai neu ymddiriedolwr noeth sy'n cael ei ddefnyddio. Bydd y diwygiad yn lleihau beichiau ar fusnesau na fyddai fel arall yn gallu hawlio'r rhyddhad. Neu gyfrifo treth yn fwy priodol drwy gael gwared ar rai ffactorau ystumiol wrth gymhwyso rheolau ynglŷn â lesoedd.*

Rhan 3 – Treth Gwarediadau Tirlenwi

Adran 14. Gweithgarwch safle tirlenwi penodedig

Mae **adran 14** o'r Bil yn diwygio **Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017** (DTGT 2017) i egluro bod deunydd a ddefnyddir o fewn cell dirlenwi yn drethadwy oni bai ei fod wedi'i eithrio'n benodol, ac i gyflwyno diffiniad statudol o "gell dirlenwi", sydd wedi'i seilio ar **ddeddfwriaeth yr Alban**.

Ar hyn o bryd, nid yw DTGT 2017 yn darparu'n glir fod yr holl ddeunydd a ddefnyddir o fewn cell dirlenwi yn drethadwy oni bai ei fod wedi'i eithrio. Mae'r **Memorandwm yn nodi** bod "ACC o'r farn bod hyn wedi arwain at anghydfodau, arferion anghyson ac ansicrwydd i weithredwyr safleoedd tirlenwi, ac wedi creu gwahaniaethau rhwng y dulliau gweithredu a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r DU". Mae'n **ychwanegu**:

> *Felly mae'r ddarpariaeth yn diwygio'r rhestr o weithgareddau safleoedd tirlenwi penodedig fel bod unrhyw ddefnydd o ddeunydd mewn cell dirlenwi yn drethadwy oni ddaw o dan eithriadau cyfyngedig ar gyfer rhai gweithgareddau peirianneg neu weithredol. Yr eithriadau yw haenau draenio yn union uwchben gwaelod cell a mewnosod pibellau, pympiau neu seilwaith cysylltiedig i reoli hylifau neu nwy.*

Rhan 4 – Cyffredinol

Adrannau 15, 16 a 17. Dehongli, Dod i rym ac Enw byr

Mae **adrannau 15-17** o'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â dehongli a dod i rym. Mae adran 16 yn **gwneud darpariaethau** i'r Ddeddf ddod i rym ddau fis ar ôl iddi gael y Cydsyniad Brenhinol.

4. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

Mae'r **pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth** o dan y Bil wedi'u rhestru yn y Memorandwm. Mae'r Bil yn rhoi i Weinidogion Cymru **2 bŵer i wneud rheoliadau**.

Mae'r pŵer cyntaf yn **galluogi Gweinidogion Cymru i wahardd neu gyfyngu ar** ddirprwyo swyddogaethau Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) ymhellach gan berson y dirprwywyd swyddogaethau iddo, pan nad yw'r person hwnnw yn awdurdod a gedwir yn ôl.

Mae'r pŵer hwn i'w arfer o dan y **weithdrefn penderfyniad negyddol** (neu'r 'weithdrefn annilysu'). O dan y weithdrefn negyddol, caiff yr offeryn statudol ei ddeddfu'n awtomatig pan gaiff ei wneud gan Weinidogion Cymru, ond gall y Senedd bleidleisio i'w annilysu o fewn 40 niwrnod ar ôl iddo gael ei osod.

Mae'r ail bŵer yn **galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o ddatgeliadau a ganiateir** heb iddi fod yn drosedd i rannu gwybodaeth warchodedig ymhellach.

Mae'r pŵer hwn i'w arfer o dan y **weithdrefn gadarnhaol ddrafft**, sy'n sicrhau na all Gweinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth oni bai bod y Senedd wedi pasio cynnig yn cymeradwyo drafft o'r is-ddeddfwriaeth.

5. Adolygu ar ôl gweithredu

Mae'r **Memorandwm yn esbonio** mai'r bwriad, o ystyried bod y Bil yn gwneud cyfres o newidiadau technegol a gweinyddol yn bennaf i ddeddfwriaeth bresennol, yw monitro effeithiolrwydd ei weithrediad drwy'r trefniadau presennol. Mae'n **ychwanegu**:

> *Bydd y gwaith monitro yn canolbwyntio ar ba un a yw'r newidiadau yn gweithredu yn ôl y bwriad ac a oes angen unrhyw ganllawiau pellach, camau gweinyddol neu newid deddfwriaethol.*

Bydd tystiolaeth sydd i'w defnyddio i fonitro'r ddeddfwriaeth **yn cynnwys** gwybodaeth weithredol ACC, gwaith achos, adolygiadau ac apelau, cwynion ac adborth gan drethdalwyr, cynghorwyr, prif gynghorau a chyrff eraill yr effeithir arnynt.

Mae'r Memorandwm yn **datgan** y bydd hyn yn helpu i nodi a yw'r darpariaethau wedi gwella eglurder a lleihau anghydfodau, ac a oes angen addasu canllawiau neu arferion gweithredol. Mae'n **dweud hefyd**:

> *Os ymddengys fod angen newid deddfwriaethol, caiff y mater ei ystyried fel rhan o'r rhaglen ehangach ar gyfer cynnal a datblygu Deddfau Trethi Cymru.*

6. Goblygiadau ariannol y Bil

Mae'r **Asesiad Effaith Rheoleiddiol ('yr Asesiad')** yn nodi crynodeb o'r costau dros y cyfnod o ddeng mlynedd yr edrychwyd arno, sef 2027-28 – 2036-37. Amcangyfrifir mai cyfanswm cost y Bil yw £0.42 miliwn.

Mae'r holl gostau a ysgwyddir yn gostau gweinyddol gydag ACC yn ysgwyddo costau untro gwerth £89,000 a chostau rheolaidd gwerth £300,000, a phrif gynghorau'n ysgwyddo £33,000 mewn costau untro dros y cyfnod o ddeng mlynedd yr edrychwyd arno.

Tabl 1. Costau sy'n gysylltiedig â'r Bil Trethiant (Cymru)

Disgrifiad o'r gost	Cost (£ miliwn)
Costau gweinyddu	
Costau trosiannol	0.12
Costau rheolaidd	0.3
Cyfanswm y costau	**0.42**
Costau cydymffurfio	
Costau trosiannol	0
Costau rheolaidd	Braidd dim
Cyfanswm y costau	**Braidd dim**
Cyfanswm costau'r Bil	**0.42**

Ffynhonnell: ***Llywodraeth Cymru, Asesiad Effaith Rheoleiddiol,*** **Bil Trethiant (Cymru), Hydref 2026**

Mae'r Asesiad **yn cynnig dau opsiwn** ar gyfer y dadansoddiad o gostau a manteision:

- **Opsiwn 1:** Busnes fel arfer.
- **Opsiwn 2:** Cyflwyno deddfwriaeth (yr opsiwn a ffefrir)

Arbedion cost

Mae'r Asesiad yn **amcangyfrif arbedion cost** gwerth £2.6 miliwn dros y cyfnod yr edrychwyd arno. Arbedion effeithlonrwydd amser i staff awdurdodau lleol ac

ACC yw'r rhain yn bennaf. Mae'r arbedion mwyaf yn deillio o rannu gwybodaeth yn well rhwng ACC a phrif gynghorau.

Costau cydymffurfio

Yn ôl yr **Asesiad**: "Ni ddisgwylir unrhyw gostau cydymffurfio meintioledig i fusnesau preifat, trethdalwyr, sefydliadau gwirfoddol na'r cyhoedd".

Costau ac anfanteision heb eu meintioli

Mae'r Asesiad yn **datgan** nad oes unrhyw gostau economaidd, cymdeithasol nac amgylcheddol heb eu meintioli eraill wedi'u nodi y tu hwnt i'r costau gweinyddol.

Manteision

Mae'r Asesiad yn **amcangyfrif manteision** y Bil dros y cyfnod o ddeng mlynedd yr edrychwyd arno i fod yn £3.12 miliwn heb gynnwys refeniw cyllidol, sy'n cynrychioli trosglwyddiadau rhwng trethdalwyr a'r sector cyhoeddus yn hytrach na manteision economaidd net.

Mae **hefyd yn dweud** ei bod yn anodd meintioli manteision y Bil megis gwell tegwch, tryloywder, profiad trethdalwyr ac eglurder cyfreithiol. Mae'r Asesiad yn **ychwanegu** "bod y canlyniadau a ariannwyd yn debygol o danamcangyfrif gwerth y newidiadau".

7. Craffu ar y Bil

Mae **pedwar cyfnod** i waith craffu'r Senedd ar Filiau.

Cyfnod 1

Mae'r Bil wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Cyllid ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1, a 19 Chwefror 2027 yw'r dyddiad cau i gyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Bydd y Pwyllgor yn lansio galwad fer am dystiolaeth ar y Bil, a bydd yn cynnal sesiynau tystiolaeth ym mis Rhagfyr i glywed barn rhanddeiliaid am y Bil cyn cyflwyno adroddiad i'r Senedd.

Bydd y Pwyllgor Deddfwriaeth hefyd yn ystyried y Bil.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses graffu Cyfnod 1 ar **dudalen y Bil ar y we**.

Cyfnod 2 a thu hwnt

Os bydd y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, bydd yn destun gwelliannau yng Nghyfnod 2. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn ystyried y gwelliannau hyn. Mae amserlen y Pwyllgor Busnes ar gyfer y Bil yn pennu bod rhaid cwblhau Cyfnod 2 erbyn 7 Mai 2027.

Yna, byddai'r Bil yn destun rhagor o welliannau gan yr holl Aelodau o'r Senedd yn y Cyfarfod Llawn (Cyfnod 3) cyn y bleidlais derfynol ynghylch a ddylid pasio'r ddeddfwriaeth (Cyfnod 4).